

2023 Rhif (Cy. )

## **TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

# Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Ger Bronllys, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr, Marchogwyr a Da Byw Dros Dro) 2023

*Gwnaed* *3 Chwefror 2023*  
*Yn dod i rym* *6 Chwefror 2023*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A479, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

**1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A479 (Ger Bronllys, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr, Marchogwyr a Da Byw Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Chwefror 2023.**

Dehongli

## 2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 08:00 o’r gloch ar 6 Chwefror 2023 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith:

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

2023 No. (W. )

## **ROAD TRAFFIC, WALES**

# The A479 Trunk Road (Near Bronlllys, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists, Equestrians and Livestock) Order 2023

*Made* 3 February 2023  
*Coming into force* 6 February 2023

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A479 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

## Title and commencement

1. The title of this Order is the A479 Trunk Road (Near Bronllys, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists, Equestrians and Livestock) Order 2023 and this Order comes into force on 6 February 2023.

## Interpretation

## **2. In this Order—**

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A479 Glanusk Park to Llyswen trunk road that extends from a point 100 metres south of the centre point of the roundabout junction with the A438 at Bronllys in an north easterly direction to a point 20 metres southwest of the centrepoint of its junction with the A438 at Marish, Bronllys, in the County of Powys;

- (1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A479 Parc Glan-wysg i Lys-wen sy’n ymestyn o bwynt 100 metr i’r de o ganolbwyt y gyffordd gylchfan â’r A438 ym Mronllys i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain hyd at bwynt 20 metr i’r de-orllewin o ganolbwyt ei chyffordd â’r A438 ym Marish, Bronllys, yn Sir Powys.

## Gwaharddiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o’r gefnffordd.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, farchogaeth ar y darn o’r gefnffordd.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ganiatáu i unrhyw dda byw fynd ar y darn o’r gefnffordd.

## Cymhwysos

**7.** Nid yw’r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

## Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

3 Chwefror 2023



Nicci Hunter  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 08:00 hours on 6 February 2023 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

## Prohibitions

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road.

**4.** No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road.

**5.** No equestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road.

**6.** No person may, during the works period, permit any livestock to proceed on the length of the trunk road.

## Application

**7.** The prohibitions in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

## Duration of this Order

**8.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the

3 February 2023



Nicci Hunter  
Business Team Leader  
Welsh Government